Cais am Gyllid AHRC (Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau): Rhaglen Meistri – Nodiadau ar lanw'r ffurflen

Dylai ymgeiswyr ddarllen 'Cais am Gyllid AHRC: Gwybodaeth Gyffredinol' a gwirio ydyn nhw'n gymwys i'w cyllido cyn llanw'u cais

*Mae'r Nodiadau hyn ar lenwi'r ffurflen yn berthnasol i **gynllun Meistr Paratoi Ymchwil** a **chynllun Meistr Paratoi Proffesiynol** - y naill a'r llall. Mae rhaglenni Meistr a Diploma Ôl-radd yn gymwys ar gyfer y cynllun Paratoi Proffesiynol.*

Gellir lawr lwytho'r holl ffurflenni a dogfennau atodol o wefan:
www.cardiff.ac.uk/ahrcawards

Nodiadau Cyffredinol ar sut i lanw'r ffurflen** ..... **Tudalen 1
RHAN I: Nodiadau i'r Ymgeisydd** ..... **Tudalen 2
RHAN II: Nodiadau i'r Canolwyr** ..... **Tudalen 6
RHAN III: Nodiadaau i'r Pennaeth yr Ysgol (neu ei (h)enwebai)** .... **Tudalen 9
Atodiad 1: Y Broses a'r Amserlen ar gyfer Ymgeisio**..... **Tudalen 10
Atodiad 2: Meini Prawf Asesu Prifysgol Caerdydd** ..... **Tudalen 11
Atodiad 3- Disgrifiadau Meysydd Pwnc AHRC**..... **Tudalen 12

Nodiadau Cyffredinol ar sut i lanw'r ffurflen

1 (i) RHAN I – i'w llanw gan yr ymgeisydd
(ii) RHAN II – i'w llanw gan ganolwyr yr ymgeisydd
(iii) RHAN III – i'w llanw gan Bennaeth yr Ysgol y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais i astudio am ddoethuriaeth ynddi (neu ei enwebai)
(iv) DOGFENNAU ATODOL: Rhaid i ymgeiswyr gynnwys copïau o drawsgrifiadau o'u marciau a chanlyniadau eu gradd gyda'u cais. Rhaid i ymgeiswyr y cynllun Paratoi Proffesiynol gynnwys CV proffesiynol hefyd. (Gweler 'Rhan I, Cwestiwn 6' isod.)

2 Dylid llenwi pob adran o'r ffurflen ar brosesydd geiriau gan ddefnyddio ffont sydd o leiaf yn 10 pwynt. Dylid cyfyngu'r testun i'r gofod ar ei gyfer. Wnewch chi ofalu bod fformat y ffurflen yn cael ei chadw ac nad ydy'r testun ddim yn gorlifo i'r tudalennau canlynol.

3 Rhaid i'r ffurflen, wedi iddi gael ei chwblhau, ynghyd â'r dogfennau atodol (trawsgrifiadau o'r marciau a chanlyniadau gradd) gael eu cadw ynghlwm (e.e. gyda chlip papur) ond heb eu rhwymo na'u styffylu.

4 **Cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydy monitro'r cynnydd tuag at gwblhau'r cais.** Dylai'r ymgeisydd gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r rhai sy'n rhan o'r broses o gwblhau'r

cais i sicrhau bod pob un o'r Rhannau'n cael eu llanw a'u cyflwyno erbyn y dyddiadau cau perthnasol. Mae'r Tabl yn Atodiad 1 yn gymorth i dracio cynnydd y cais.

5 Er gwybodaeth, nodir y meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau yn Atodiad 2.

RHAN I: Gwybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd – Nodiadau i'r Ymgeisydd

Cwestiwn 1: Maes Pwnc AHRC

Wrth lanw'r rhan hon, cynghorir ymgeiswyr i ofyn am gyngor gan yr Ysgol lle caiff eu rhaglen ôl-radd ei lleoli'n bennaf.

6 Trowch at Atodiad 3 sy'n rhoi disgrifiadau o'r pynciau AHRC. Rhaid i'ch prosiect fod o fewn o leiaf un o'r pynciau hyn.

7 Gall rhai rhaglenni ôl-radd bontio ar draws meysydd pwnc eraill yr AHRC ac, os felly, dylid rhestru'r holl feysydd pwnc ar y ffurflen, er mwyn i'r cais gael ei ystyried yn llawn. Mae Caerdydd yn gwahodd ceisiadau ar gyfer ysgoloriaethau ymchwil Paratoad Ymchwil a Pharatoad Proffesiynol yr AHRC yn y meysydd pwnc canlynol ar gyfer mynediad yn 2012-13.

Paratoad Ymchwil	Paratoad Proffesiynol
Archaeoleg	**Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu**
Cerdd	**Newyddiaduraeth ac Astudiaethau Cyhoeddi**
Hanes	
Hanes Celf, Pensaerniaeth a Dylunio	
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	
Iaith a Diwylliant Ewropeaidd	

Cwestiwn 4 – Manylion cyswllt

8 Yr Ysgol academaidd rydych chi'n bwriadu astudio ynddi; hwyrach bydd yr Ysgol Ymchwil ac Ôl-radd yn y Dyniaethau a/neu Gofrestrfa'r Brifysgol am gysylltu â chi rhwng canol Mawrth a Awst 2012. Rhowch fanylion cyswllt fydd yn berthnasol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Cwestiwn 5 - Ceisiadau ariannu cyfredol

9 Nodwch, os gwelwch yn dda, os ydych hefyd yn gwneud cais i sefydliad(au) eraill am astudiaeth AHRC. Sylwch: os caiff ymgeisydd gynnig mwy nag un efrydiaeth gan wahanol sefydliadau, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddewis p'un i'w dderbyn cyn i'r enwebiad gael ei gadarnhau gyda'r AHRC.

Cwestiwn 6 - Profiad proffesiynol

10 **Cynllun Paratoad Ymchwil**

Rhowch wybodaeth am unrhyw waith, swydd neu brofiad proffesiynol (seiliedig ar ymchwil a/neu waith ymarferol) sydd yn berthnasol i'ch rhaglen astudiaeth ac yr ydych yn dymuno i'r aseswyr ei ystyried . Defnyddiwch y gofod sydd ar gael, os gwelwch yn dda, a pheidiwch â chynnwys tudalennau ychwanegol.

11 **Cynllun Paratoad Proffesiynol**

Atodwch CV ar wahân sy'n manylu ar eich profiad cyflogaeth a gwaith a'ch profiad proffesiynol perthnasol.

Cwestiwn 7– Gyrfa mewn addysg uwch hyd yn hyn

12 Os oes ganddoch chi fwy nag un cymhwyster ar yr un lefel, rhowch fanylion am yr un mwyaf perthnasol i'r cais hwn (efallai mai nid hwn fydd yr un diweddaraf).

Cwestiwn 8 Manylion yr Ysgol

13 Cysylltwch â'ch Ysgol i sicrhau eich bod yn cyflwyno'r manylion cywir am y pwynt cyswllt AHRC o fewn yr Ysgol. Bydd y canolwyr yn cael eu cyfarwyddo i anfon eu geirda i'r cyswllt hwn.

Cwestiwn 9 – Manylion am y Rhaglen Astudiaeth

14 Rhowch deitl eich rhaglen ôl-radd. Os ydych yn gwneud cais am arian o dan gynllun Paratoi Ymchwil ac yn bwriadu ymgymryd ag ymchwil PhD, rhowch deitl gwaith y prosiect ymchwil.

Cwestiwn 10 – Datganiad Cefnogi

15 Mae'ch 'datganiad cefnogi' yn allweddol i'ch cais. Dylech drafod cynnwys yr adran hon gyda darpar oruchwyliwr eich traethawd neu'ch prosiect ymchwil neu gyfarwyddwr y rhaglen

16 Bydd aseswyr yn chwilio am dystiolaeth o ansawdd uchel a photensial cryf i astudio'n ôl-radd (tystiolaeth o bwrpas deallusol, y rhesymau dros a'r dull o fynd i'r afael â'ch darpar astudiaeth, ymwybyddiaeth o'r maes astudiaeth yr ydych yn bwriadu arbenigo ynddo).

17 Defnyddiwch iaith glir a chryno, gan osgoi 'jargon'. Cofiwch efallai nad yw'r aseswyr yn arbenigwyr yn eich maes arbenigol chi: dylech ysgrifennu eich 'datganiad cefnogi' gyda'r gynulleidfa hon mewn golwg, ac nid eich tiwtor neu eich cyfarwyddwr rhaglen.

18 Nodwch fod cyfyngiad caeth i gadw o fewn **500 gair**. Rhaid nodi'r cyfanswm geiriau.

19 Efallai y dymunech ddefnyddio'r is-benawdau isod i drefnu'r gwaith yr ydych yn bwriadu ymgymryd ag e mor glir â phosib. Does dim rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau isod; mae'r adran hon yn darparu cyfarwyddyd ar y materion y byddwch yn delio â nhw wrth wneud eich achos dros gefnogaeth.

20 **Cynllun Paratoi Ymchwil**

(a) Sut bydd dilyn y rhaglen hon yn eich paratoi ar gyfer astudiaeth doethuriaeth?

- Nodwch yn gryno pam yr ydych am ddilyn y rhaglen hon
- Pa broblemau deallusol sydd o ddiddordeb i chi?
- Pam hoffech chi gario ymlaen i astudio am ddoethuriaeth a beth fydd ffocws tebygol eich astudiaethau doethuriaeth?

- Sut bydd y rhaglen hon yn eich paratoi ar gyfer astudio am ddoethuriaeth?
- Sut mae'n cysylltu â'ch amcanion am yrfa yn y pen draw?

Bydd gan yr aseswyr ddiddordeb yn y cysylltiad rhwng y rhaglen a'ch dyheadau ymchwil a gyrfa.

(b) Disgrifiad cryno o'r rhaglen astudiaeth

Ar gyfer rhaglenni a addysgir:

- pa lwybr fyddwch chi'n ei ddilyn (os yw'n berthnasol) a pha fodiwlau pwnc-penodol? - bydd hyn yn eich galluogi i gyfleu'ch diddordeb yn y rhaglen astudiaeth;
- dylech nodi pwnc eich traethawd, yn dangos eich bod yn ymwybodol o sefyllfa gyfredol y wybodaeth a pha drywydd fyd eich ymchwil yn ei ddilyn (efallai y cewch y pwyntiau isod am 'brosiect ymchwil' yn help ond sylwch nad oes gofyn i chi ar yr adeg hon fod wedi cynllunio'ch traethawd yn fanwl).

Ar gyfer rhaglenni MPhil, rhowch grynodeb byr o'r darpar brosiect ymchwil yn delio â'r canlynol:

- y problemau neu gwestiynau ymchwil rydych chi'n bwriadu rhoi sylw iddyn nhw;
- y cyd-destun ymchwil (cefndir) lle mae'r problemau neu gwestiynau hynny'n codi;
- y cyfraniad arbennig i wybodaeth a dealltwriaeth yn y maes hwn yr ydych chi'n gobeithio ei wneud, gan egluro pam bod eich gwaith yn bwysig;
- y dulliau a'r ymdriniaeth gritigol yr ydych yn bwriadu eu defnyddio, ynghyd â'r ffynonellau, os yw'n briodol (gan gynnwys strategaethau neu ddulliau amgen os ydych chi'n ymwybodol y bydd problemau'n codi);
- unrhyw faterion moesegol ynghlwm â'r prosiect ymchwil – dylid dynodi'r rhain ac ymdrin â nhw;
- sut bydd y prosiect yn datblygu dros gyfnod y dyfarniad.

(c) Y paratoi a phrofiad blaenorol

- Nodi'n **fyr** unrhyw brofiad blaenorol neu baratoi sy'n berthnasol i'ch darpar brosiect ymchwil (e.e. agweddau arbennig o'ch astudiaeth israddedig neu hyfforddiant ychwanegol neu sgiliau perthnasol).

21 **Cynllun Paratoi Proffesiynol**

(a) Sut bydd dilyn y rhaglen hon yn cyfrannu at amcanion eich gyrfa?

- nodwch yn fyr y rhesymau pam yr ydych yn dymuno dilyn y rhaglen hon
- sut bydd y rhaglen yn cynorthwyo amcanion eich gyrfa yn y dyfodol?

Bydd gan yr aseswyr ddiddordeb yn y cysylltiad rhwng y rhaglen a'ch datblygiad academaidd a phroffesiynol chi, eich dyheadau gyrfaol a'ch hyfforddiant.

(b) Disgrifiad byr o'r rhaglen astudiaeth

- pa lwybr fyddwch chi'n ei ddilyn (os yw'n berthnasol) a pha fodiwlau pwnc-penodol? - bydd hyn yn eich galluogi i gyfleu'ch diddordeb yn y rhaglen astudiaeth;
- sut mae'r rhaglen yn cysylltu ag arfer yn eich dewis faes a sut bydd o fantais i chi ddatblygu'ch gyrfa?
- *pwnc y traethawd* – os yw'n berthnasol rhowch ddisgrifiad byr o faes pwnc eich traethawd;
- *asesiad ymarferol* - os ydy'ch rhaglen yn cynnwys elfen ymarferol i'w hasesu, rhowch ddisgrifiad byr o'r trywydd byddwch yn ei ddilyn yn eich gwaith.

(c) Paratoi a phrofiad blaenorol

- nodwch unrhyw brofiad blaenorol yn eich maes astudiaeth (gan gynnwys gwaith cyflogedig a gwirfoddol perthnasol);
- nodwch yr hyfforddiant a'r paratoi yr ydych eisoes wedi eu gwneud sy'n berthnasol i'ch darpar astudiaeth, sut mae'r hyfforddiant hwn wedi'ch paratoi ar gyfer y rhaglen a'ch darpar yrfa.

Cwestiwn 11: Eich canolwyr

22 Dylech ddewis eich dau ganolwr yn ofalus: rhyngddynt, dylai fod ganddynt wybodaeth dda am eich record academaidd hyd yma a'ch cynlluniau ar gyfer astudio'n ôl-raddedig. Dylent fod mewn sefyllfa dda i farnu pa mor addas a pharod ydych chi ar gyfer y rhaglen ôl-raddedig. Gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu eu sylw at y nodiadau arweiniad i ganolwyr sydd yn y ddogfen hon.

23 Cynghorir ymgeiswyr y cynllun Paratoi Proffesiynol i enwebu un canolwr proffesiynol ac un canolwr academaidd.

Pennyn y Ffurflen

24 Rhowch lythrennau cyntaf eich enwau cyntaf a'ch cyfenw llawn yn y blychau sydd yn y pennyn ar ben tudalennau 2-4.

Nodiadau am y ddogfennaeth atodol

25 Mae eich perfformiad academaidd hyd yma yn eich rhaglen israddedig yn agwedd bwysig ar eich cais. Os yw eich rhaglen israddedig wedi dod i ben, dylech ddarparu trawsgrifiad o'ch marciau a chadarnhad o'r dosbarth gradd a ddyfarnwyd

26 Os na wnaethoch eich gradd ym Mhrifysgol Caerdydd, byddai'n ddefnyddiol petaech chi'n gallu darparu disgrifiad o'r meini prawf dosbarthu graddau.

27 Os ydych chi'n gwneud eich gradd ar hyn o bryd dylech gynnwys tystiolaeth o farciau modiwlau unigol sydd wedi'u cadarnhau, lle gallwch wneud hynny. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech gynnwys datganiad yn dweud hynny.

28 (Caiff ei gydnabod mai manylion marciau a gafwyd yn rhan o raglenni a wnaed mewn blynyddoedd cymharol ddiweddar yn unig a all fod ar gael.)

Wedi i chi orffen llenwi Rhan I:

(a) pasiwch gopi o Ran 1 o'r cais wedi ei lanw, ynghyd â chopïau o'r dogfennau atodol, i bob un o'ch canolwyr sydd wedi eu henwi gennych uchod, iddyn nhw allu cwblhau eu hadroddiadau; i bob un ohonyn nhw, dylech roi Rhan II o'r cais i'w llanw; dylech hefyd roi copi iddyn nhw o'r ddogfen "Cais am Gyllid AHRC (Cyngor Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau): Rhaglen Doethuriaeth/Meistr – Nodiadau ar lanw'r ffurflen" ac hefyd "Cais am Gyllid AHRC: Gwybodaeth gyffredinol";

(b) pasiwch Ran 1 o'r cais wedi ei llanw i'r person cyswllt AHRC yn yr Ysgol y bwriedwch astudio ynddi, ynghyd â'r dogfennau atodol (trawsgrifiad o'r marciau a chanlyniad arholiad gradd).

Dylai'r canolwyr lanw eu rhannau nhw ac yna eu pasio'n uniongyrchol i gyswllt AHRC yr Ysgol (fel a nodir yn Cwestiwn 8). **Gofynnir i'r ddau ganolwr ddychwelyd eu geirda i'r ysgol berthnasol erbyn**

Dydd Gwener 2 Mawrth 2012 (ar gyfer pob pwnc ag eithrio Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi)

Dydd Iau 16 Ebrill 2012 (Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi)

Dyma'r dyddiad cau i'r Ysgol dderbyn Rhannau I a II o'r ffurflen, ynghyd â'r dogfennau atodol.

Nodwch mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydy monitro cynnydd y cais a gwirio bod pob un o'r Rhannau wedi eu llanw**:** Fydd y Brifysgol ddim yn gwneud cais drosoch am eirda gan eich canolwyr, ac ni fydd eich cais yn cael ei ystyried os na fydd y ddau eirda wedi eu derbyn.

RHAN II: Adroddiadau canolwyr - nodiadau i'r canolwyr

29 Dylai'r ymgeisydd fod wedi rhoi copi i chi o Ran I o'r cais wedi ei lanw a chopïau o'r dogfennau atodol (trawsgrifiadau o'r marciau a chanlyniadau gradd). Dylai fod yn glir o Ran I a yw'r cais yn dod o dan gynllun Paratoi Ymchwil neu gynllun Paratoi Proffesiynol.

30 Mae'r ymgeisydd hwn wedi gwneud cais am ddyfarniad ôl-radd. Fel canolwr, dylech geisio rhoi sylwadau manwl am waith diweddar yr ymgeisydd ac a ydy ef/hi yn barod ar gyfer astudiaeth ôl-radd. Bydd o help i'r panel os cynigiwch chi dystiolaeth o sgiliau sydd gan yr ymgeisydd ac, yn bwysig, sut mae'r rhain yn berthnasol i'r astudiaeth arfaethedig (fel sy'n cael ei ddisgrifio yn 'natganiad cefnogaeth' yr ymgeisydd).

31 Gofynnwyd i Ganolwyr Academaidd dynnu ar eu profiad o waith cyffredinol yr ymgeisydd. Os na ddyfarnwyd gradd eisoes, a wnewch chi lenwi'r bocs sy'n gofyn i chi ddarogan canlyniad y radd. Dylai fod yn glir o'r wybodaeth a ddarperir yng ngweddill eich adroddiad pam yr ydych yn rhagweld y radd hon.

32 Dylai canolwyr proffesiynol nodi pa mor hir mae'r ymgeisydd wedi gweithio gyda nhw a beth oedd ei (ch)gyfrifoldebau. Dylech nodi manylion ei (d)ddyletswyddau, y math o ddyletswydd a berfformiwyd a'u hystod a sut gallai hyn fod wedi paratoi'r ymgeisydd ar gyfer yr astudiaeth arfaethedig.

33 Gall geirda sydd ddim yn darparu gwerthusiad manwl o ddatblygiad academaidd yr ymgeisydd a'i (h)addasrwydd ar gyfer y darpar astudiaeth ond yn ddatganiad cefnogi yn unig, olygu bod hyd yn oed yr ymgeisydd cryfaf dan anfantais. Peidiwch â chynnwys sylwadau amhriodol megis sylwadau personol.

34 Teipiwch eich adroddiad mewn teip ddim llai na10pt gan gadw o fewn y gofod a ddarperir.

35 Gallai'r ymgeisydd ofyn am weld copi o'r geirda. Os ydych yn dymuno atal eich cydsyniad i ryddhau'ch adroddiad i'r ymgeisydd, ticiwch y bocs. Os na fyddwch yn ticio'r bocs, byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi rhoi eich caniatâd.

36 Defnyddiwch y penawdau isod i roi eich sylwadau.

(i) Ceisiadau ar gyfer y **cynllun Paratoi Ymchwil**

Bwriad y cynllun ydy cefnogi'r myfyriwr ar raglen sy'n ffocysu ar uwch astudiaeth a hyfforddiant ymchwil gyda'r bwriad penodol o ddarparu sylfaen ar gyfer ymchwil pellach ar lefel doethuriaeth. Gofynnwn i chi gadw'r bwriad hwn mewn cof wrth ddarparu geirda.

(a) Perfformiad blaenorol

Ar gyfer canolwyr academaidd, a wnewch chi gynnwys gwerthusiad realistig o alluoedd yr ymgeisydd, yn seiliedig ar ansawdd ei berfformiad/ei pherfformiad academaidd hyd yn hyn. A wnewch chi gynnwys sylwadau ar berfformiad cyffredinol yr ymgeisydd yn ei radd/gradd a'i (ph)berfformiad/pherfformiad mewn modiwlau unigol. Rhowch enghreifftiau i esbonio'ch sylwadau.

Os ydy'r myfyriwr yn astudio ar gyfer ei (g)radd ar hyn o bryd ac os cewch ganiatâd i wneud hynny, rhowch fanylion o'i (m)farciau.

Ar gyfer canolwyr proffesiynol, tynnwch ar eich profiad o waith yr ymgeisydd i roi gwerthusiad o'i (ph)berfformiad proffesiynol hyd yn hyn. Amlygwch gryfderau (ac unrhyw wendidau) sy'n berthnasol i'r maes y mae'n bwriadu astudio a gweithio ynddo.

(b) Potensial ar gyfer astudiaeth ôl-radd

Darparwch asesiad o addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y darpar raglen a pha mor barod ydy e/hi i ymgymryd â'r rhaglen, ei (ph)botensial i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, ei (ch)gymhelliant a'i (h)ymrwymiad, unrhyw sgiliau deallusol perthnasol y mae'r ymgeisydd yn meddu arnyn nhw ar potensial i barhau ag astudiaeth doethuriaeth.

Efallai yr hoffech roi sylwadau ar ffactorau megis gallu cysyniadol yr ymgeisydd, ei sgiliau datrys problemau, y gallu i feddwl yn annibynnol, y potensial ar gyfer arloesi, sgiliau trefniadaeth, sgiliau cyfathrebu a gallu'r ymgeisydd o'i gymharu â grwpiau ac unigolion perthnasol eraill y mae gennych brofiad ohonyn nhw.

Dylai canolwyr proffesiynol hefyd gynnig sylwadau ar ymrwymiad proffesiynol yr ymgeisydd, ei (h)ysgogiad a'i (ph)botensial.

Wedi i chi gwblhau'r geirda:

(a) rhowch wybod i'r ymgeisydd eich bod wedi cwblhau'ch geirda;

(b) pasiwch y geirda ymlaen at y Cyswllt AHRC yn yr Ysgol (gweler y manylion yn Rhan I, Cwestiwn 8, wedi ei llanw gan yr ymgeisydd).

Nodwch, os gwelwch yn dda, ar gyfer y Cynllun Paratoi Ymchwil mai'r dyddiad cau ar gyfer i'r Ysgol dderbyn y ddau eirda ydy Dydd Gwener 2 Mawrth 2012

(ii) Ceisiadau ar gyfer **cynllun Paratoi Proffesiynol**

Bwriad y cynllun ydy cefnogi'r myfyriwr ar raglen sy'n astudio rhaglenni Meistr neu Ddiploma Ôl-radd sy'n ffocysu ar ddatblygu sgiliau uchel eu lefel a chymwyseddau ar gyfer ymarfer proffesiynol mewn maes perthnasol i'r rhaglen. Gofynnwn i chi gadw hyn mewn cof wrth ddarparu eich geirda.

(a) Profiad Blaenorol

Ar gyfer canolwyr academaidd, a wnewch chi gynnwys gwerthusiad realistig o alluoedd yr ymgeisydd, yn seiliedig ar ansawdd ei (ph)berfformiad academaidd hyd yn hyn. A wnewch chi gynnwys sylwadau ar berfformiad cyffredinol yr ymgeisydd yn ei (g)radd a'i (ph)berfformiad mewn modiwlau unigol. Rhowch enghreifftiau i egluro'ch sylwadau.

Os ydy'r myfyriwr yn astudio ar gyfer ei (g)radd ar hyn o bryd ac os cewch ganiatâd i wneud hynny, rhowch fanylion o'i (m)farciau.

Ar gyfer canolwyr proffesiynol, tynnwch ar eich profiad o waith yr ymgeisydd i roi gwerthusiad o'i (ph)berfformiad proffesiynol hyd yn hyn. Amlygwch gryfderau (ac unrhyw wendidau) sy'n berthnasol i'r maes y mae'n bwriadu astudio a gweithio ynddo.

(c) Potensial ar gyfer astudiaeth ôl-radd

Darparwch asesiad o addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y darpar raglen a pha mor barod ydy e/hi i ymgymryd â'r rhaglen, ei botensial/ei photensial i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, ei (ch)gymhelliant/ei chymhelliant a'i (h)ymrwymiad, unrhyw sgiliau deallusol ac ymarferol y mae'r ymgeisydd yn meddu arnyn nhw ar potensial i barhau mewn ymarfer proffesiynol.

Dylech ddweud sut mae'r darpar raglen yn cysylltu â phrofiad academaidd a phroffesiynol hyd yn hyn ac â'i darpar gynlluniau.

Efallai yr hoffech roi sylwadau ar ffactorau megis gallu cysyniadol yr ymgeisydd, ei sgiliau datrys problemau, y gallu i feddwl yn annibynnol, y potensial ar gyfer arloesi, sgiliau trefniadaeth, sgiliau cyfathrebu a gallu'r ymgeisydd o'i gymharu â grwpiau ac unigolion perthnasol eraill y mae gennych brofiad ohonyn nhw.

Dylai canolwyr proffesiynol hefyd gynnig sylwadau ar ymrwymiad proffesiynol yr ymgeisydd, ei (ch)gymhelliant a'i (ph)botensial, a sut bydd ymgymryd â'r rhaglen yn helpu'r ymgeisydd i gwrdd â'i nodau hirdymor ei (g)yrfa.

Wedi i chi gwblhau'r geirda:

(a) rhowch wybod i'r ymgeisydd eich bod wedi cwblhau'ch geirda;

(b) pasiwch y geirda ymlaen at y Cyswllt AHRC yn yr Ysgol (gweler y manylion yn Rhan I, Cwestiwn 8, wedi ei llanw gan yr ymgeisydd).

Nodwch, os gwelwch yn dda:
- ar gyfer Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu, mai'r dyddiad cau ar gyfer i'r Ysgol dderbyn y ddau eirda ydy Dydd Gwener 2 Mawrth 2012.

- ar gyfer Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi, mai'r dyddiad cau ar gyfer i'r Ysgol dderbyn y ddau eirda ydy Dydd Llun 16 Ebrill 2012.

RHAN III: <u>Cefnogaeth yr Ysgol</u>

I'w lenwi gan y Pennaeth yr Ysgol (neu ei (h)enwebai) lle mae'r ymgeisydd yn bwriadu astudio

37 Dylech fod wedi derbyn Rhan I (wedi'i llenwi gan yr ymgeisydd), Rhan II (y ddau eirda) a'r ddogfennaeth atodol (tystiolaeth o'r marciau a'r canlyniadau gradd).

38 Gofynnir i chi gefnogi'r cais. Wrth wneud hyn rydych yn cadarnhau y gellir rhoi cefnogaeth briodol i'r ymgeisydd ar y rhaglen hon. Yn achos ymgeiswyr MPhil, golyga hyn eich bod yn ymgymryd â darparu a/neu roi sylw i'r canlynol: arbenigedd arolygu; adnoddau a chyfleusterau; materion moesegol; unrhyw anghenion hyfforddi penodol.

39 Mae lle I chi roi unrhyw sylwadau ychwanegol penodol os dymunwch. Yn achos y mwyafrif o'r ceisiadau, ni ddisgwylir sylwadau ychwanegol yma fel arfer. Gofynnir i'r Panel Dethol asesu'r cais ar sail datganiad yr ymgeisydd, adroddiadau'r canolwyr a'r record academaidd, ac nid ar sail datganiad pellach gan yr Ysgol. Er hynny:

- Os yw cymhwyster israddedig yr ymgeisydd yn dod o sefydliad addysg uwch y tu allan i'r Deyrnas Unedig, mae'n ofynnol i'r Ysgol roi asesiad o gyfatebiaeth y cymhwyster.

<u>Pan fydd Cefnogaeth yr Ysgol wedi'i chwblhau:</u>

Camau gweithredu i gyswllt AHRC yr Ysgol:

(a) trosglwyddwch y cais wedi'i gwblhau (y tair rhan) a'r ddogfennaeth atodol (trawsgrifiadau'r marciau a'r canlyniadau gradd) i Swyddfa Coleg Graddedigion y Brifysgol, 60 Plas y Parc, erbyn:

Dydd Gwener 16 Mawrth 2012 (ar gyfer pob pwnc ag eithrio Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi)

Dydd Llun 23 Ebrill 2012 (ar gyfer Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi)

- i'w ystyried gan y Panel(i) Pwnc perthnasol;

(b) rhowch wybod i'r ymgeisydd eich bod wedi gwneud hyn.

Nodwch mai Swyddfa Ysgolion y Graddedigion fydd yn llungopïo ac yn dosbarthu i'r Panel. Peidiwch â rhwymo neu styffylu'r cais, ond defnyddiwch glipiau papur neu amlenni neu waledi plastig unigol.

Atodiad 1: Y Broses a'r Amserlen ar gyfer Ymgeisio

Bwriad y rhestr wirio amserlen hon ydy helpu'r ymgeisydd i dracio cynnydd ei g(ch)ais.

Cyfnod Gwneud Cais	**Llinell Amser (lle nodir)**
Yr ymgeisydd yn cwblhau Rhan I o'r cais. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y trawsgrifiad a thystiolaeth o ganlyniadau'r radd yn cael eu cynnwys.	
Yr ymgeisydd yn anfon copïau o Ran I wedi'i chwblhau a'r dogfennau atodol at y ddau ganolwr ynghyd â Rhan II o'r ffurflen er mwyn i'r canolwyr ei chwblhau. Dylai ymgeiswyr gynnwys y Nodiadau ar lenwi'r ffurflen a thynnu sylw at yr arweiniad a roddir i ganolwyr.	***Diwedd mis Chwefror/ dechrau mis Mawrth 2012*** *(Ymgeisydd i gytuno ar ddyddiad gyda'r canolwyr – rhaid cael digon o amser i'r canolwyr gwrdd â'r dyddiad cau sef:* ***2 Mawrth 2012*** ***16 Ebrill 2012*** *(Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi yn unig)*
Yr ymgeisydd yn anfon Rhan 1 ynghyd â dogfennau atodol at gyswllt Ysgol y Cyngor Ymchwil a Dyniaethau (AHRC).	**Dyddiad Cau:** ***2 Mawrth 2012*** ***16 Ebrill 2012*** *(Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi yn unig)*
Y ddau ganolwr yn anfon eu geirda at y Cyswllt Ysgol.	**Dyddiad Cau:** ***2 Mawrth 2012*** ***16 Ebrill 2012*** *(Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi yn unig)*
Pennaeth yr Ysgol/enwebai yn llenwi Cefnogaeth yr Ysgol.	
Yr ysgol yn trosglwyddo'r cais gorffenedig (Rhan I, II a III ynghyd â'r dogfennau atodol) i Swyddfa Coleg Graddedigion y Brifysgol.	**Dyddiad Cau:** ***16 Mawrth 2012*** ***23 Ebrill 2012*** *(Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi yn unig)*
Gwirio'r cais am gymhwyster a'u copïo a'u dosbarthu i'r panel(i) Pwnc.	*Yr wythnos yn cychwyn* *19 Mawrth 2012* *23 Ebrill 2012 (Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi yn unig)*
Paneli Pwnc yn cwrdd	*Diwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill 2012* *Dechrau Mai (Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi yn unig)*
Argymhellion Paneli Pwnc yn cael eu coladu a'u cyflwyno i gyfarfod y Pennaeth Dyniaethau.	*Ebrill 2012* *Mai 2012 (Newyddiaduriaeth ac Astudiaethau Cyhoeddi yn unig)*
Hysbysu'r Gofrestrfa o ganlyniadau'r asesiad a'r broses dyfarnu ac yna hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig.	*Ebrill/Mai/2012*

Atodiad 2: Dyfarniadau Meistr AHRC (Paratoi Ymchwil a Pharatoi Proffesiynol) – Meini Prawf Asesu Prifysgol Caerdydd

1. Tystiolaeth o ansawdd yr ymgeisydd

   Seilir hyn ar y Datganiad Cefnogaeth a wnaed gan yr ymgeisydd yn ei (ch)gais a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y canolwyr am berfformiad yr ymgeisydd ar lefel israddedig ac yn nhermau profiad proffesiynol perthnasol. Cyfeirir at drawsgrifiadau y marciau modiwl unigol a chanlyniadau gradd. Bydd yr aseswyr yn chwilio am

   - cynllun da ar gyfer y darpar astudiaeth a thystiolaeth o allu i fynegi ac ymgymryd â phrosiect ymchwil (**cynllun paratoi Ymchwil)**; neu
   - rhesymau wedi'u mynegi'n glir dros ddilyn y dewis raglen a thystiolaeth o'r gallu i ddilyn yn llwyddiannus a chwblhau'r rhaglen (**cynllun Paratoi Proffesiynol**).

2. Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi'i (ph)baratoi'n dda ar gyfer ei (dd)darpar/ddarpar ymchwil a'i (g)yrfa yn y dyfodol.

   Seilir hyn ar ddisgrifiad yr ymgeisydd o sut mae ei (ph)brofiad blaenorol (academaidd a phroffesiynol) wedi ei (ph)baratoi ar gyfer astudiaeth ôl-radd a disgrifiad yr ymgeisydd o sut bydd y rhaglen yn cyfrannu at ei (b)fwriad hirdymor. Bydd yr asesydd hefyd yn ystyried y dystiolaeth atodol a ddarparwyd gan y canolwyr, yn enwedig o ran gallu'r ymgeisydd i gwblhau'r rhaglen ymchwil.

Tystiolaeth priodoldeb cefnogaeth Ysgol, adnoddau a'r arbenigedd goruchwylio

Seilir hyn ar adroddiad yr Ysgol o'r adnoddau a geir i gwrdd ag anghenion yr ymgeisydd penodol hwn/hon a/neu'r darpar brosiect. Bydd yr aseswyr yn edrych am sicrwydd bod gofynion y prosiect o ran arbenigedd y goruchwylio, adnoddau, cyfleusterau, cymorth technegol a chymorth arbenigol arall gan gynnwys hyfforddiant sgiliau ymchwil, wedi cael eu hystyried yn llawn ac wedi eu darparu. Bydd aseswyr hefyd am wybod sut y delir ag unrhyw fwlch a ganfuwyd yn yr hyfforddiant ar gyfer yr ymgeisydd arbennig hwn/hon a bydd diddordeb gan yr asesydd i sicrhau sut yr aethpwyd ati i ddelio â materion moesegol. Ar gyfer y cynllun **Paratoi Ymchwil** , rhaid cael tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn bwriadu symud ymlaen i astudiaeth doethuriaeth (neu, yn achos y celfyddydau creadigol a pherfformiadol neu yrfa mewn ymchwil yn y sector addysg uwch).

Ar gyfer y cynllun **Paratoi Proffesiynol**, rhaid cael tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn bwriadu symud ymlaen i ymarfer yn y maes y bydd y rhaglen yn eu paratoi ar ei chyfer.

3. Tystiolaeth o ansawdd a dichonolrwydd y darpar astudiaeth

   Seilir hyn ar adroddiad yr ymgeisydd a'r rhesymau am ddilyn y darpar raglen.

Atodiad 3- Disgrifiadau Meysydd Pwnc AHRC (lle y mae gan Gaerdydd ddyfarniadau Meistri Paratoi Ymchwil a Phroffesiynol AHRC i'w cynnig yn 2012-13)

Cerdd
Yn cynnwys cyfansoddi a pherfformiad (gan gynnwys clasurol, masnachol a phoblogaidd); hanes a beirniadaeth cerddoriaeth; ethnogerddoreg; theori a dadansoddiad gan gynnwys dulliau empirig o fynd ati; technoleg a chymwysiadau cyfrifiadurol (mewn ymchwil doethuriaeth yn y meysydd hyn, gallai fod canlyniadau digidol ac electronig yn ogystal â thesis ysgrifenedig yn bosibl). Rhennir y cyfrifoldeb dros *ethnogerddoreg* gyda ESRC. Gallai AHRC gefnogi cyrsiau mewn *seicoleg cerdd* lle seilir y prif bwyslais ar y celfyddydau a dyniaethau.

Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu
(Ieithoedd Modern)

Hanes
Mae'r AHRC yn cefnogi gwaith pob cyfnod *hanes a hanes yr hen fyd i'r gorffennol diweddar,* ac ymhob cwr o'r byd, er dylid cyfeirio ceisiadau hanes yr hen fyd at y Clasuron & Hanes yr Hen Fyd. AHRC sy'n gyfrifol yn bennaf am: gofiannau; hanes gweinyddol, diwylliannol, diplomyddiaeth, hanes y gyfraith, hanes milwrol, hanes gwleidyddiaeth a hanes crefydd; hanes gwyddoniaeth , meddygaeth a syniadaeth ; a hanesyddiaeth.
Mae'r AHRC yn ariannu gwaith ym maes 'hanes modern' sef hanes sy'n gorffen yn yr ugeinfed ganrif hwyr. Mae'n cydnabod bod 'hanes cyfoes' yn faes astudiaeth dilys ond mae rhaid i astudiaeth sy'n ffocysu'n bennaf neu'n gyfan gwbl ar ddau ddegawd olaf y ganrif honno ddangos mai hanesyddol ydy'r prif ffocws (h.y. yn hytrach na chyfoes, diwylliannol neu wleidyddol) a sut a pham mae hynny'n wir, er enghraifft, sut bydd yr astudiaeth yn ffocysu ar newid dros gyfnod penodol o amser neu'n defnyddio dulliau hanesyddol yn bennaf o ddadansoddi. Mae'r maes pwnc hwn hefyd yn cynnwys:

- *daearyddiaeth hanesyddol neu ddaearyddiaeth diwylliannol* a *hanes daearyddiaeth,* lle gellir profi mai ffocws hanesyddol sydd i'r astudiaeth
- *hanes gwyddoniaeth a meddygaeth* a *hanes syniadaeth* ac eithrio'r achosion lle mai ffocws y darpar astudiaeth mor amlwg yn athronyddol nes y byddai'n fwy priodol i'r astudiaeth gael ei chyfeirio *i faes astudiaethau Athroniaeth* lle mae prif ffocws y darpar waith yn hanesyddol
- *hanes diplomyddiaeth* a *hanes cysylltiadau rhyngwladol (*dydy'r AHRC ddim yn cefnogi gwaith ym maes *cysylltiadau rhyngwladol cyfoes neu go-gyfoes neu ddamcaniaeth neu ddadansoddiad cyfoes neu go-gyfoes).*

Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio
Yn cynnwys hanes celf, pensaernïaeth a dylunio, o fewn y fframwaith cronolegol a daearyddol ehangaf; theori ac estheteg y celfyddydau gweledol; hanes ffotograffiaeth a'r cyfryngau gweledol; gwaith ym meysydd cytras megis astudiaethau diwylliannol ac o ran dosbarthiad rhyw, archaeoleg ac anthropoleg lle mae'r rhain yn pontio astudiaethau'r celfyddydau gweledol neu wedi eu grwpio gyda nhw. Bydd yr AHRC hefyd yn cefnogi ymchwil mewn pensaernïaeth sy'n ymwneud â chynllunio adeiladau (ond nid agweddau adeileddol na sifil nac agweddau eraill o beirianneg).

Cais am Gyllid AHRC: Rhaglen Meistri – Nodiadau ar lanw'r ffurflen

Iaith a Diwylliant Ewropeaidd

Mae hyn yn cynnwys astudiaethau mewn iaith a llenyddiaeth; theori feirniadol a diwylliannol; ysgrifennu creadigol; astudiaethau diwylliannol; astudiaethau rhywedd; astudiaethau'r cyfryngau; athroniaeth; ac astudiaethau hanesyddol. Rhaid i waith gynnwys cyfran sylweddol o waith ar destunau, dogfennau neu archifau neu waith maes mewn ieithoedd perthnasol heblaw Saesneg, a rhaid i fyfyrwyr hefyd ddangos cymhwysedd yn yr iaith honno ar lefel briodol.

Iaith a Llên Saesneg

Yn cynnwys iaith a llên Hen Saesneg a Saesneg Canol Oesol; Hen Norseg ac Islandeg; Llên y Dadeni; Llên y 17 a'r 18 ganrif; Llenyddiaeth ramantaidd;
llên Fictoraidd, llên yr ugeinfed ganrif; llên Americanaidd; llên trefedigaethau ac ôl trefedigaethol; llên gymharol; ysgrifennu creadigol, llenyddiaeth plant; theori a hanes beirniadol a diwylliannol; astudiaethau o ran dosbarthiad rhyw ac astudiaethau hoyw; llyfryddiaeth, beirniadaeth destunol a hanes y llyfr; llên Gwyddelig yn y Saesneg ; Llên Albanaidd yn y Saesneg a Gaeleg yr Alban; a Llên Cymru yn Saesneg. Mae'r maes hwn hefyd yn cynnwys :

- Hanes yr *iaith Saesneg* a dadansoddi arddull a mynegiant (gallai astudiaethau Iaith Saesneg eraill, yn cynnwys astudiaethau llefaru a phragmatiaeth, geirfa a gramadeg gael eu cyfeirio i Ieithyddiaeth)
- *theori beirniadol ac astudiaethau diwylliannol neu gyfathrebu* lle mae ffocws yr astudiaeth ar ddehongli neu ddadansoddi testunau yn Saesneg.

Newyddiaduraeth ac Astudiaethau Cyhoeddi

Yn cynnwys pob math o newyddiaduraeth megis newyddiaduraeth darlledu, papurau newydd , cylchgronau ac yn cynnwys newyddiaduraeth a drosglwyddir drwy'r cyfyngau newydd (amlgyfrwng a newyddiaduraeth ar-lein) ac astudiaethau cyhoeddi.